

Gwylia rhag rhesymoliad

“Meistr, gwyddwn dy fod yn ddyn caled, yn medi lle heuodd eraill ac yn casglu lle gwasgarodd eraill.” (adn. 24)

Beth am ddarllen Mathew 25:14–30 ac yna myfyrio

Rydym ni'n parhau i ystyried y cwestiwn: A ellir dibynnu arnaf i ddweud y gwir bob amser, ymhob sefyllfa? Beth am fod yn onest hefo ni ein hunain? Tybed a glywsoch chi y geiriau canlynol: “Bydd yn onest â thi dy hun, ac fel y mae y nos yn canlyn y dydd, ni elli felly fod yn anonest ag unrhyw ddyn.”

Mae llawer ohonom yn meddu ar y duedd i chwarae hefo'r hyn y mae seicolegwyr yn ei ddisgrifio fel rhesymoliad. Yn y ddameg a ddarllenwyd ar ddechrau'r astudiaeth yma, mae'r dyn a gafodd un cod o arian yn beio ei feistr am ei anallu ef i luosogi yr hyn a gafodd, a'r esgus sydd ganddo yw ei fod wedi methu ag ychwanegu oherwydd bod ei feistr yn ddyn caled. Dyna resymoliad.

Dyma esiampl arall: Mae dyn yn caniatáu iddo'i hun i syrthio mewn cariad hefo gwraig dyn arall ac yna yn mynd yn ei flaen i geisio rhesymoli'r sefyllfa trwy berswadio ei hunan o arbenigrwydd y teimladau o gariad sydd ganddo. Yn fuan iawn y mae du yn edrych yn wyn. Mae wedi twyllo ei hunan. Fel y gwyddom o'r Beibl, fe wnaeth Dafydd rywbeth yn debyg iawn gyda golwg ar ei berthynas â Bathseba (2 Samuel 11:1–27).

Mae'r ymwybod dynol yn offeryn rhyfeddol pan ddaw i dwyllo ni ein hunain, oherwydd y mae ganddo'r gallu i wadu y pethau rhyfedd sydd yn ein calon ac yn ein natur. Beth am ateb y cwestiwn yma'n awr: “A wyf i'n barod i dorri allan o'm bywyd bopeth anonest, costied a gostio?” Efallai y bydd y penderfyniad yn golygu gwneud iawn. Er nad yw'n bosibl bob amser i wneud iawn, fe ddylai fod yna barodrwydd i wneud hynny, os yn bosibl. Gwnewch y penderfyniad i beidio byth â rhesymoli fan hyn. Mae gwneud hynny yn anghyson â rhagoriaeth foisol.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ex. 20:13–17; 2 Sam. 11:1–12:13

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Ym mha ffordd y medrai Dafydd osgoi pechod?
2. Sut yr argyhoeddwyd Dafydd o'i bechod?

Gweddi

O Dad, efallai nad oes yna unrhyw glwyfau agored yn fy enaid, ond rwyf yn hiraethu am fod y person yr wyt ti am i mi fod. O hyn ymlaen, fydd yna ddim rhesymoli pechod. Cryfha fi yn enw Iesu. Amen.